**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**RHOI CYMUNEDAU’N GYNTAF – YSTYRIED Y CANLLAWIAU TERFYNOL**

## Diben

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar y canllawiau Rhoi Cymunedau’n Gyntaf terfynol sydd wedi’u hanfon at bartneriaethau lleol.

## Crynodeb

2. Mae’r canllawiau yn Atodiad A i’w defnyddio gan unigolion a phobl eraill mewn amryw o wahanol sefydliadau sy’n meddu ar wahanol sgiliau a phrofiadau. Ceisiwyd sicrhau eu bod yn hawdd i’w defnyddio a’u bod yn ymatebol i’r farn a fynegwyd dros gyfnod ymgynghori hirfaith.
3. Mae’r canllawiau yn:

- hyblyg, er mwyn ystyried y gwahanol amgylchiadau ar draws Cymru;
- nodi beth ddylai partneriaeth Rhoi Cymunedau’n Gyntaf ei wneud, yn darparu gwybodaeth ac yn rhoi esiamplau o arferion da, ac yn awgrymu pwyntiau pellach y gallai partneriaeth eu hystyried;
- cynnwys Fframwaith Gweledigaeth Cymuned – sy’n nodi’r materion y gallai’r cymunedau ganolbwyntio arnynt. Gellir defnyddio’r materion hyn i bennu targedau ar gyfer monitro hynt y gwaith;
- darparu esiamplau o Gynlluniau Gweithredu yn y Gymuned a Datblygu Gallu;
- rhoi esiampl o ddisgrifiad swydd ar gyfer Cydlynydd Rhoi Cymunedau’n Gyntaf;
- hawdd i’w defnyddio;
- cael eu diweddaru’n rheolaidd.

## Cefndir

1. Seiliwyd Rhoi Cymunedau’n Gyntaf ar yr egwyddor y dylai adfywio cymunedol ddiwallu’r anghenion a bennwyd gan y cymunedau eu hunain. Ymysg pethau eraill, mae wedi cael ei lunio i:

- alluogi cymunedau i gymryd rhan;
- sicrhau canlyniadau sy’n arwain at gynaliadwyedd;

- gryfhau partneriaethau sy'n gweithio tuag at ddatblygu cymunedau iachach; a,
- cynrychioli ymrwymiad hirdymor i ddarparu adnoddau.

1. Cafodd y weledigaeth ei nodi yn y papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2000. Cyhoeddwyd ail bapur ymgynghori yn pennu cynigion manwl ym mis Rhagfyr 2000. Dadansoddwyd canlyniadau'r ymarferion ymgynghori a'u hymgorffori yn y canllawiau drafft.
2. Trafodwyd fframwaith arfaethedig y canllawiau yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 4 Gorffennaf 2001 ac roedd aelodau'n gwerthfawrogi'n arbennig y bwriad i ysgrifennu'r canllawiau mewn modd hawdd eu darllen. Roedd y fframwaith yn sail i'r canllawiau drafft a drafodwyd yn ddiweddarach mewn pedwar cyfarfod grp ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru. Gwahoddwyd aelodau'r gymuned, y sector gwirfoddol a'r sector statudol i ymuno yn y grwpiau ffocws. Fe'i trafodwyd hefyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn gyffredinol roedd yr adborth a dderbyniwyd ar y canllawiau drafft yn bositif a chafodd llawer o'r sylwadau a fynegwyd eu cynnwys yn y fersiwn terfynol. Cyhoeddwyd y canllawiau ar ffurf electronig ddiwedd mis Medi ac maent i'w cael ar wefan y Cynulliad. Disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi mewn copi caled (mewn ffeil fodrwy) cyn y cyfarfod. Bydd fersiwn Cymraeg ar gael cyn hir.
3. Rydym yn cydnabod y bydd angen cyhoeddi canllawiau mwy penodol ar gyfer awdurdodau lleol a Chydlynwyr Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Gwneir hyn cyn gynted â phosibl.

**<u>Argymhellion</u>**

4. Gwahoddir y Pwyllgor i fynegi'i farn ar y canllawiau terfynol. Er eu bod wedi'u cyhoeddi mae'n ddogfen fyw a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd yng ngoleuni profiad. Bydd unrhyw sylwadau gan aelodau'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon.

**Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau**

**Hydref 2001**